CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: gwarchod ffawna a fflora (SMR 3) (2025)

Crynodeb o'r rheolau os oes gennych dir sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-gwarchod-ffawna-fflora-smr-3-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#159394)

**Prif ofynion** (https://www.llyw.cymru#159396)

**Archwiliadau yn y maes** (https://www.llyw.cymru#159398)

**Arfer da** (https://www.llyw.cymru#159400)

**Gwybodaeth pellach** (https://www.llyw.cymru#159402)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-gwarchod-ffawna-fflora-smr-3-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw gwarchod cynefinoedd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol a diogelu anifeiliaid a phlanhigion gwyllt.

# Prif ofynion

## Pob tir

- peidiwch â phigo, casglu, torri, dadwreiddio na difetha'n fwriadol unrhyw blanhigion gwyllt sydd ar y rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop' na'r rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn genedlaethol' (y DU) e.e. clychau'r gog. (Mae'r planhigion ar y rhestr Ewropeaidd yn cael eu rhestru yn Atodlen 5 **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (ar legislation.gov.uk)** (https://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490) ac mae'r rhywogaethau ar y rhestr genedlaethol  yn cael eu rhestru yn Atodlen 8 **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (ar legislation.gov.uk)** (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69)
- peidiwch â lladd, anafu nac aflonyddu ar unrhyw anifeiliaid gwyllt sydd ar y rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop' na'r rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn genedlaethol' na difrodi, difetha na chau eu llochesi (Mae'r anifeiliaid ar y rhestr Ewropeaidd yn cael eu rhestru yn Atodlen 2 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac mae'r rhywogaethau ar y rhestr genedlaethol yn cael eu rhestru yn Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-gwarchod-ffawna-fflora-smr-3-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Tir mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu ddarpar SoDdGA ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

- rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ymlaen llawn trwy lythyr am unrhyw gynnig i gynnal, peri neu ganiatáu gweithred benodedig sy'n debygol o niweidio'r budd gwyddonol mewn SoDdGA/ACA
- rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan CNC cyn dechrau unrhyw weithred benodedig ar SoDdGA/ACA sydd wedi'i rhestru fel gweithred allai niweidio'r diddordeb arbennig. Er enghraifft: torri neu docio tyfiant, lladd gwair, llosgi, draenio, aredig neu drin y tir (e.e. llyfnu), gwasgaru gwrtaith neu galch, chwistrellu (gan gynnwys sbot-chwynnu), cwympo coed, codi pren marw a newid patrymau stocio a bwydo stoc. Os ceir caniatâd, rhaid cynnal pob gweithred yn unol â'r amodau a nodir yn y caniatâd a roddir
- rhaid cydymffurfio ag unrhyw Rybudd neu Gytundeb Rheoli gan CNC sy'n ymwneud â nodweddion arbennig y SoDdGA/ACA
- rhaid cydymffurfio ag amodau unrhyw Orchymyn Adfer gan Lys sy'n ymwneud â nodweddion arbennig y SoDdGA/ACA
- fel perchennog, rhaid ichi roi gwybod i CNC os bydd y perchennog, neu'r denantiaeth neu'r les, yn newid, hynny o fewn 4 wythnos ar ôl i'r newid ddigwydd

## Byddwch yn wedi mynd yn groes i'r SMR hwn

- os bydd unrhyw rai o nodweddion arbennig y safle wedi'i ddifrodi neu ei ddifetha trwy fwriad neu esgeulustod, neu os terfir ar ffawna/fflora a warchodir sy'n nodwedd arbennig (mae'r gofyn hwn yn ymwneud hefyd â gweithgarwch sy'n digwydd y tu allan i'r SoDdGA/ACA ei hun ond sy'n esgor ar yr un canlyniadau)
- os bydd perchennog/meddiannydd yn cynnal gweithred hysbysadwy (ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-gwarchod-ffawna-fflora-smr-3-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

eithrio mewn argyfwng neu o dan amgylchiadau penodedig eraill) heb ganiatâd CNC

## Archwiliadau yn y maes

- i ofalu bod y weithred benodedig sy'n cael ei chynnal ar y SoDdGA/ACA yn cael ei chynnal yn unol â chaniatâd ysgrifenedig CNC
- i edrych i weld nad yw llochesi na mannau magu anifeiliaid sy'n cael eu gwarchod wedi'u cau, eu difrodi neu eu difetha
- i chwilio am arwyddion bod anifeiliaid sy'n cael eu gwarchod wedi'u tarfu, eu lladd neu eu hanafu'n anghyfreithlon
- i edrych i weld nad oes neb wedi pigo, casglu, torri, dadwreiddio na difetha'n fwriadol unrhyw blanhigion sy'n cael eu gwarchod

## Arfer da

- cadwch at amodau unrhyw gytundeb amaethamgylcheddol
- cydymffurfiwch â phob hysbysiad rheoli a roddir gan CNC
- mae llawer o ACAoedd wedi'u dynodi hefyd yn SoDdGAoedd ac yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Rhaid cadw at yr holl amodau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn (SMR2)

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-gwarchod-ffawna-fflora-smr-3-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2025)** (https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cysylltiadau-defnyddiol-2025) o fewn y pecyn hwn.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-gwarchod-ffawna-fflora-smr-3-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).